V1.1

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

# Strategaeth Dysgu Digidol yr Ysgolion 2025-2028

**Rhagair**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi ymrwymo i sicrhau bod gan bob plentyn a pherson ifanc y sgiliau sy'n angenrheidiol er mwyn dysgu ar hyd eu hoes a llwyddo yn yr unfed ganrif ar hugain.

Mewn byd lle mae technoleg yn chwarae rhan hanfodol mewn bywyd bob dydd, mae'n hanfodol i'n hysgolion fabwysiadu ac integreiddio technoleg ddigidol yn effeithiol a fydd yn galluogi plant a phobl ifanc i gael mynediad at ystod eang o brofiadau dysgu a datblygu'r cymwyseddau sydd eu hangen i ffynnu mewn byd digidol sy'n esblygu'n gyflym. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi ymrwymo i baratoi plant a phobl ifanc am heriau a chyfleoedd technolegol y dyfodol.

Mae Strategaeth Dysgu Digidol Ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr 2025-2028 yn amlinellu ein gweledigaeth i ragori mewn addysg ddigidol ar draws ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr. Ffrwyth cydweithio agos rhwng ystod eang o randdeiliaid yw'r ddogfen hon, gan gynnwys llywodraethwyr, penaethiaid, athrawon, staff cymorth, swyddogion awdurdod lleol, aelodau etholedig, cydweithwyr Consortiwm Canolbarth y De, swyddogion Llywodraeth Cymru a phartneriaid o'r byd technolegol.

Mae'r weledigaeth a amlinellir yn y strategaeth hon yn sicrhau bod ein hysgolion gyfarpar da, a bod ein haddysgwyr wedi'u paratoi'n dda i ddarparu addysg ddigidol o ansawdd uchel, a hefyd n helpu ysgolion i gynllunio, rheoli a buddsoddi yn eu seilwaith technoleg.

Mae ein strategaeth yn un sy'n edrych i'r dyfodol ac wedi ymrwymo i adeiladu ar lwyddiannau Rhaglen Hwb ar gyfer dysgu digidol a'r buddsoddiad mewn Gwasanaethau Masnachol Technoleg Addysg mewn band eang, seilwaith digidol a dyfeisiau i ysgolion, sy'n parhau i gefnogi cyfleoedd i hyrwyddo ein Strategaeth Dysgu Digidol ar gyfer Ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer 2025-2028.

Mae ein strategaeth yn cydnabod bod Cwricwlwm Cymru (CfW) a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol (FfCD) yn rhoi dysgu digidol ar yr un lefel â llythrennedd, rhifedd a'r Gymraeg, gan sicrhau bod anghenion digidol addysgwyr a dysgwyr yn cael eu bodloni mewn modd cynhwysfawr.

Ceir pwyslais cryf ar bwysigrwydd cynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol i addysgwyr a staff, gan osod addysg ddigidol wrth graidd ein hamcanion. Ar ben hynny, darperir canllawiau clir i bob ysgol i wella sgiliau dysgu digidol a gwella deilliannau dysgwyr.

Er ei bod yn cydnabod rôl hanfodol dysgu ac addysgu wyneb yn wyneb, mae'r strategaeth hon yn tynnu sylw at fanteision integreiddio methodolegau dysgu cyfunol ar-lein, dysgu sy'n seiliedig ar y cwmwl, a thechnolegau datblygol ac arloesol. Bydd yr wybodaeth a amlinellir yn y strategaeth hon yn cynnig fframwaith cymorth i bob ysgol wrth fabwysiadu model dysgu digidol dynamig ac effeithiol.

Dylai technoleg ddigidol hefyd fod yn gonglfaen i holl raglenni buddsoddi'r awdurdod lleol, gan sicrhau y gall yr ystâd addysg gefnogi dyheadau technolegol ein holl ysgolion ac anghenion technolegol pob defnyddiwr wrth iddynt esblygu neu ddod i'r amlwg. O dan arweiniad yr egwyddor hon, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn parhau i flaenoriaethu dysgu digidol mewn ysgolion, gan roi cymorth ac arweiniad drwy ymagwedd gyson, safonedig a chynaliadwy at dechnoleg.

Wrth lunio'r strategaeth hon, rydym wedi sicrhau bod y camau gweithredu a nodwyd yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau canlynol:

- lleol (er enghraifft, blaenoriaethau strategol addysg 'Tîm Pen-y-bont ar Ogwr', targedau gwasanaethau addysg llywodraeth leol, amcanion corfforaethol ac amcanion Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr);
- rhanbarthol (er enghraifft, amcanion Cynllun Busnes Consortiwm Canolbarth y De a blaenoriaethau Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morganwg); a
- chenedlaethol (er enghraifft, Addysg yng Nghymru – Ein Cenhadaeth Genedlaethol, Safonau Addysg Digidol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Pwrpas y dull strategol hwn yw dylunio i sicrhau bod partneriaid darparu yn integreiddio cyfleoedd addysg digidol i lawer o agweddau ar ddysgu ac addysgu, gan alluogi plant a phobl ifanc i elwa'n llawn ar botensial technoleg ddigidol. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu map ffordd tair blynedd, a bydd y strategaeth yn cael ei hadolygu'n flynyddol i sicrhau ffocws parhaus ar gynnig y deilliannau gorau i ddysgwyr drwy gyfleoedd digidol amrywiol.

|  |  |  |  |  |  |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cynghorydd John Spanswick**<br><br>Arweinydd y Cyngor | **Cynghorydd Martyn Jones**<br><br>Aelod Cabinet dros Addysg | **Jake Morgan**<br><br>Prif Weithredwr | **Lindsay Harvey**<br><br>Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyfarwyddiaeth Addysg, y Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc) | **Kathryn John**<br><br>Cadeirydd Ffederasiwn Cynradd Pen-y-bont ar Ogwr | **Hannah Castle**<br><br>Cadeirydd Cymdeithas Penaethiaid Ysgolion Arbennig ac Uwchradd Pen-y-bont ar Ogwr |

**Cynnwys**

1. Y Cyd-destun
2. Blaenoriaethau
3. Gweledigaeth
4. Nodau
5. Diben y Strategaeth
6. Cyfeiriad y Daith
7. Cysoni â Safonau Digidol Addysg Llywodraeth Cymru
8. Diogelwch Ar-lein
9. Technoleg Ddatblygol
10. Deallusrwydd Artiffisial a Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol
11. Strategaeth MIS (system gwybodaeth reoli)
12. Rhwydweithiau TG ysgolion
13. Meddalwedd
14. Data personol
15. Argymhellion ar gyfer arweinwyr mewn ysgolion
16. Cynllun Gweithredu – Cynllun tair blynedd ac amcanion/canlyniadau

**Atodiadau**

Atodiad A Telerau ac amodau Grŵp Strategaeth TGCh yr Ysgolion
Atodiad B Rhestr o feddalwedd a argymhellir
Atodiad C Rhestr o ddyfeisiau defnyddiwr terfynol a argymhellir

## 1. Y Cyd-destun

1.1 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ('CBSP' neu 'yr awdurdod lleol') wedi'i leoli yn Ne Cymru ac, yn ôl Cyfrifiad 2021, mae tua 145,500 o bobl yn byw yn y Sir.

1.2 Mae'r awdurdod lleol yn cynnal 59 o ysgolion. Ceir 48 o ysgolion cynradd, gan gynnwys 4 sy'n darparu addysg cyfrwng Cymraeg. Ceir naw ysgol uwchradd gan gynnwys un ysgol cyfrwng Cymraeg. Ceir dwy ysgol arbennig ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Yn ogystal â hynny, ceir uned cyfeirio disgyblion.

1.3 Tua £148 miliwn yw cyllideb Cyfarwyddiaeth y Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25.

1.4 Mae'r awdurdod lleol yn cynnal ystâd ddigidol yr ysgolion. Mae hyn yn cynnwys:

**Cyfathrebu (llais a data)**

- Un cylched rhwydwaith a reolir gan Brosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus (PSBA) Cymru ym mhob ysgol
- Cyfarpar ymyl rhwydwaith a reolir gan PSBA ac Openreach
- Monitro rhwydwaith a reolir gan yr awdurdod lleol
- Switshis mynediad a dosbarthu a reolir gan yr awdurdod lleol
- Pwyntiau mynediad diwifr a reolir gan yr awdurdod lleol
- System ffôn Protocol Llais dros y Rhyngrwyd (VoIP) a reolir gan yr awdurdod lleol, a ddefnyddir ym mhob ysgol ond un

**Canolfannau data (wedi'u symud i Hwb)**

- Canolfannau data: 2 (gan gynnwys safle adfer ar ôl trychineb)
- Gweinyddion ysgolion: 0 wedi'u cynnal yng nghanolfannau data CBSP
- Gweinyddion storio: 0 storfa sy'n berthnasol i ysgolion wedi'u cynnal yng nghanolfannau data CBSP

**Defnyddwyr terfynol**

- Staff Ysgol: tua 3,000
- Disgyblion: tua 22500

**Dyfeisiau**

**Ysgolion cynradd- Dyfeisiau disgyblion (dyfeisiau athrawon/staff cymorth)**

- Cyfrifiaduron Bwrdd Gwaith Windows: 2282 (950)
- Gliniaduron Windows: 2034 (1718)
- Cyfrifiaduron Apple: 77 (27)
- Gliniaduron Apple: 29 (171)

- iPads Apple: 4707 (683)
- Llechi Android: 126 (63)
- Chromebooks: 11062 (193)
- Dyfeisiau sydd wedi'u galluogi gan Chrome: 11856 (10492)
- Monitorau/byrddau sgrin gyffwrdd: 907
- Monitorau/byrddau sgrin heb dechnoleg gyffwrdd: 1582
- Taflunyddion clyweledol: 234

**Ysgolion uwchradd- Dyfeisiau disgyblion (dyfeisiau athrawon/staff cymorth)**

- Cyfrifiaduron Bwrdd Gwaith Windows: 2127 (716)
- Gliniaduron Windows: 781 (659)
- Cyfrifiaduron Apple: 15 (16)
- Gliniaduron Apple: 12 (130)
- iPads Apple: 1311 (158)
- Llechi Android: 126 (47)
- Chromebooks: 6661 (138)
- Dyfeisiau sydd wedi'u galluogi gan Chrome: 40 (0)
- Monitorau/byrddau sgrin gyffwrdd: 362
- Monitorau/byrddau sgrin heb dechnoleg gyffwrdd: 1431
- Taflunyddion clyweledol: 182

**Ysgolion arbennig - Dyfeisiau disgyblion (Dyfeisiau athrawon/staff cymorth)**

- Cyfrifiaduron Bwrdd Gwaith Windows: 38 (95)
- Gliniaduron Windows: 58 (294)
- Cyfrifiaduron Apple: 2 (1)
- Gliniaduron Apple: 0 (0)
- iPads Apple: 95 (67)
- Llechi Android: 0 (0)
- Chromebooks: 133 (0)
- Dyfeisiau sydd wedi'u galluogi gan Chrome: 0 (0)
- Monitorau/byrddau sgrin gyffwrdd: 82
- Monitorau/byrddau sgrin heb dechnoleg gyffwrdd: 10
- Taflunyddion Clyweledol: 2

## 2. Blaenoriaethau

2.1 Ein cenhadaeth genedlaethol yw codi safonau, lleihau'r bwlch cyrhaeddiad, a darparu system addysg sy'n ffynhonnell o falchder cenedlaethol ac sy'n ennyn hyder y cyhoedd. Mae Cwricwlwm i Gymru 2022 yn hanfodol er mwyn cyflawni'r genhadaeth honno ('Addysg yng Nghymru: Ein cenhadaeth genedlaethol', Llywodraeth Cymru, 2017).

2.2 Mae'r pedwar nod canlynol yn greiddiol i'r genhadaeth hon:

- sicrhau bod dysgwyr ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn meithrin sgiliau a chymwyseddau digidol lefel uchel, gydag annibyniaeth gynyddol i

ddefnyddio ystod o dechnolegau i lywio, gwerthuso a chreu'n effeithiol o fewn llawer o gyd-destunau a sefyllfaoedd;
- sicrhau bod gan ysgolion fynediad at dechnoleg ac adnoddau cwricwlwm digidol modern, gan gynnwys cymorth i ysgolion fabwysiadu offer a gwasanaethau Hwb i gefnogi dysgu ac addysgu;
- cynorthwyo ymarferwyr i ddatblygu'r sgiliau digidol sydd eu hangen i elwa ar dechnolegau arloesol a datblygol; a
- sicrhau bod gan ymarferwyr fynediad at ddysgu proffesiynol o safon drwy'r fframwaith dysgu proffesiynol digidol, rhaglenni ar gyfer ysgolion fel sefydliadau dysgu a chyfleoedd dysgu proffesiynol rhanbarthol, cenedlaethol ac wedi'u cynllunio'n arbennig.

2.3 Mae'r awdurdod lleol wedi ymrwymo'n gadarn i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn elwa ar ystod o brofiadau dysgu a chyfleoedd dysgu amrywiol i roi'r sgiliau angenrheidiol iddynt ddysgu ar hyd eu hoes a ffynnu yn yr unfed ganrif ar hugain.

2.4 Fel yr amlinellwyd yn 'Cwricwlwm i Gymru', mae pedwar diben y cwricwlwm yn llywio ymagwedd yr awdurdod lleol at gyflenwi'r cwricwlwm. Mae'r awdurdod lleol eisiau sicrhau bod ein plant a'n pobl ifanc:

- yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes;
- yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith;
- yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd; a
- unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

2.5 Mae Cwricwlwm i Gymru yn nodi tri chyfrifoldeb trawsgwricwlaidd gorfodol: llythrennedd, rhifedd, a chymhwysedd digidol. Mae'r sgiliau hyn yn hanfodol i bob dysgwr a rhaid eu datblygu ar draws pob maes dysgu a phrofiad. Maent yn hanfodol er mwyn i ddysgwyr allu cymryd rhan yn llwyddiannus ac yn hyderus yn y byd modern.

2.6 Mae cymhwysedd digidol yn rhan allweddol o'r cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd hyn ac mae angen ei ystyried yn rhan o ddyluniad y cwricwlwm ar lefel yr ysgol, ar draws pob maes dysgu a phrofiad. Mae'r awdurdod lleol yn gweithio gyda phartneriaid cyflawni allweddol (fel Consortiwm Canolbarth y De ac ysgolion) i sicrhau bod sgiliau digidol yn cael eu datblygu mewn modd hyblyg ac yn briodol i anghenion dysgwyr unigol a grwpiau o ddysgwyr. Rhaid rhoi pwyslais cryf ar ddatblygu dysgu mewn ffordd flaengar i ddiwallu anghenion pob dysgwr.

2.7 Mae'r awdurdod lleol yn rhoi gwerth mawr ar y Gymraeg, ac wedi ymroi i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg o fewn y fwrdeistref sirol. Yn unol â'r ymrwymiad hwn, mae'r awdurdod lleol yn canolbwyntio ar ehangu ei ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg. Ystyrir bod Strategaeth Dysgu Digidol Ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr yn offeryn hanfodol yn yr ymdrech hon, gan sicrhau bod cynnwys ar-lein cyfrwng Cymraeg o ansawdd uchel ar gael i bob

dysgwr a bod adnoddau digidol Cymraeg ar gael i'r staff ar gyfer datblygiad proffesiynol.

2.8 Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod pwysigrwydd buddsoddi yn ei ystâd ysgolion i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu haddysgu mewn lleoliadau sy'n elwa o wybodaeth o ansawdd uchel a thechnoleg sy'n seiliedig ar y cwmwl, gan gynnwys seilwaith cadarn a dyfeisiau priodol i ddefnyddwyr priodol.

2.9 Mae'r awdurdod lleol wedi ymrwymo i weithio gyda'i ysgolion a rhanddeiliaid pwysig eraill fel Consortiwm Canolbarth y De a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod ei ddysgwyr a'i staff yn cael amgylcheddau dysgu sy'n addas at y diben ac sy'n bodloni anghenion y cwricwlwm.

2.10 Bydd yr awdurdod lleol yn parhau i weithio gydag arweinwyr ysgolion i ddatblygu eu dull o ddefnyddio a rheoli technoleg ddigidol i fodloni gofynion eu hysgol a'u dysgwyr. Bydd yr awdurdod lleol hefyd yn sicrhau bod ei ysgolion yn cydymffurfio â'u rhwymedigaethau statudol ar gyfer seiberddiogelwch a rheoli data yn unol ag agenda Gwydnwch Digidol Llywodraeth Cymru.

2.11 Bydd yr awdurdod lleol, drwy ei athroniaeth 'Tîm Pen-y-bont ar Ogwr', yn parhau i gynnwys arweinwyr ysgolion, staff addysgu a staff technegol yn ei broses gynllunio. Bydd hyn o gymorth i sicrhau bod yr atebion cywir yn cael eu gweithredu, yn y pen draw, er budd y dysgwr.

2.12 Bydd yr awdurdod lleol yn gweithio gydag ysgolion i lunio cytundebau lefel gwasanaeth (CLGau) ar y cyd er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni anghenion y cleient, yn effeithlon ac yn gynaliadwy. Bydd yr awdurdod lleol yn gweithio'n agos gydag ysgolion i sicrhau eu bod yn deall y Cytundebau Lefel Gwasanaeth y maent yn ymrwymo iddynt. Bydd yr awdurdod lleol hefyd yn sicrhau bod ysgolion yn gallu herio'r gwasanaethau yr ydym ni'n eu darparu os ydynt o'r farn nad yw'r gwasanaeth yn bodloni eu hanghenion neu nad yw perfformiad y gwasanaeth yn cyrraedd targedau yn y CLG.

2.13 Er bod yr awdurdod lleol yn credu'n gryf ym mhwysigrwydd cyllidebau dirprwyedig a datganoli cyfrifoldebau, yr awdurdod lleol, ar y cyd â Llywodraeth Cymru, sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu'r rhan fwyaf o wasanaethau digidol i ysgolion. Os nad yw'r awdurdod lleol yn gallu darparu gwasanaeth digidol y mae ar ysgol ei angen, byddwn yn awgrymu atebion eraill ac yn cynghori ysgolion ynghylch sut i weithredu er mwyn bodloni eu hanghenion.

2.14 Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod pwysigrwydd rhoi mynediad i addysgwyr at gyfleoedd datblygu proffesiynol er mwyn sicrhau bod technoleg ddigidol yn cael ei defnyddio'n effeithiol i gyfoethogi dysgu. Drwy 'Tîm Pen-y-bont ar Ogwr', anogir ysgolion i rannu profiadau, gwybodaeth a chyfleoedd a fydd yn cefnogi datblygiad proffesiynol. Mae gan ysgolion hefyd fynediad at Gynnig Dysgu Proffesiynol Consortiwm Canolbarth y De a chymorth pwrpasol ar gyfer dysgu digidol drwy'r Swyddog Arweiniol ar gyfer Dysgu Digidol a rhwydwaith cymorth Grŵp Arweinwyr Digidol yr ysgolion.

2.15 Yn yr un modd, mae'r awdurdod lleol yn cydnabod yn agored fanteision dysgu 'cyfunol' (hynny yw, cyfuniad o dysgu ac addysgu wyneb yn wyneb ac ar-lein). Rydym am wneud y mwyaf o'r manteision y mae unrhyw fuddsoddiad ychwanegol yn ein seilwaith TG yn eu cynnig er mwyn sicrhau bod gan bob dysgwr, waeth ble maen nhw, fynediad diogel at addysgu rhagorol ac adnoddau dysgu o ansawdd uchel.

2.16 Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod manteision gweithredu technolegau digidol mewn cymwysterau ac asesiadau. Byddwn yn helpu ysgolion i integreiddio dulliau asesu wedi'u moderneiddio sy'n gyson â Chymwysterau Cenedlaethol 14-16. Gall offer digidol hydrinedd, dibynadwyedd a dilysrwydd asesiadau, ac ymgysylltiad ag asesiadau, a thrwy groesawu'r datblygiadau arloesol hyn, gall ysgolion gynnig ystod amrywiol o bynciau a dulliau asesu sy'n paratoi dysgwyr am fywyd, dysgu a gwaith yn y byd digidol.

## 3. Gweledigaeth

3.1 Mae technoleg bellach yn rhan hanfodol o'r ffordd rydym yn byw ac yn dysgu, ac mae'n fwyfwy pwysig i ysgolion ddatblygu medrusrwydd yn eu hymdriniaeth â thechnoleg ddigidol a newidiadau technolegol yn amgylchedd yr ysgol.

3.2 Gweledigaeth Strategaeth Dysgu Digidol Ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr (2025-2028) yw:

- hyrwyddo'r defnydd o dechnoleg i gyfoethogi a gwella'r profiad addysgol ym mhob ysgol;
- cefnogi a chynnal mynediad diogel a hyblyg 'unrhyw bryd, unrhyw le' fel cyfrifoldeb parhaus;
- sicrhau bod seilwaith ar gyfer data a chyfathrebu yn cael ei reoli'n effeithlon, yn briodol ac yn ddiogel;
- archwilio a datblygu defnydd diogel a moesegol o dechnolegau datblygol sy'n cefnogi dysgu ac addysgu arloesol; a
- sicrhau bod pob dysgwr yn cael cyfleoedd i fanteisio ar dechnolegau newydd i ymdopi â heriau'r oes ddigidol, gan bwysleisio pwysigrwydd deall cysyniadau defnydd beirniadol, gwerthusol a moesegol.

3.3 Rydym am i Strategaeth Dysgu Digidol Ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr fod yn uchelgeisiol er mwyn sicrhau bod yr awdurdod lleol ac ysgolion yn buddsoddi'n barhaus mewn seilwaith digidol cynaliadwy, gan gynnwys caffael dyfeisiau digidol priodol, i fodloni anghenion pob dysgwr a newidiadau technolegol yn y dyfodol. Ceir hyd i restr o ddyfeisiau defnyddiwr terfynol a argymhellir yn Atodiad C.

3.4 Rydym am sicrhau bod technoleg ddigidol yn ystyriaeth allweddol ym mhob rhaglen fuddsoddi awdurdodau lleol sy'n ymwneud â gwelliannau i'r ystâd addysg.

3.3 Byddwn hefyd yn sicrhau y gall pob dysgwr ac addysgwr o fewn ardal yr awdurdod lleol gael mynediad at offer a gwasanaethau digidol perthnasol a modern drwy hyrwyddo'r defnydd o Hwb ledled y fwrdeistref sirol.

## 4. Nodau

4.1 Byddwn yn cydweithio'n agos ag ysgolion i adeiladu ar arfer da presennol ac ysgogi datblygiadau arloesol pellach. Byddwn yn ceisio manteisio ar dechnoleg arloesol a datblygol i:

- ddarparu profiadau dysgu arloesol i blant a phobl ifanc;
- lleihau baich tasgau 'nad ydynt yn ymwneud ag addysgu';
- cefnogi dulliau ehangach a chynhwysol o ddiogelu asesiadau digidol, gyda thechnolegau digidol fydd o fudd i bob dysgwr; a
- hyrwyddo anghenion arweinwyr ysgolion, athrawon a staff cymorth o ran datblygiad proffesiynol parhaus.

4.2 Byddwn yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a gynigir gan dechnoleg i ddod â staff ysgolion, swyddogion a rhanddeiliaid eraill ynghyd i gydweithio a gwella ymarfer digidol.

4.3 Mae cyllidebu gofalus ac ystyriol yn hanfodol er mwyn darparu technoleg ddigidol yn yr ystafell ddosbarth a'r seilwaith lleol a chorfforaethol angenrheidiol i sicrhau bod technoleg ddigidol yn cael ei defnyddio'n effeithiol fel offeryn dysgu.

4.4 Wrth brynu offer, rhaid ystyried cyfanswm cost y berchnogaeth. Mae Rhaglen Seilwaith Hwb Llywodraeth Cymru a buddsoddiad ysgolion mewn Gwasanaeth Masnachol Technoleg Addysg yn seiliedig ar fodel cynaliadwyedd, a bydd yr awdurdod lleol yn alinio ei CLG TGCh i alluogi'r prosiect hwnw.

4.5 Bydd y Safonau Digidol Addysg (https://hwb.gov.wales/gwella-ysgolion-ac-arweinyddiaeth/safonau-digidol-addysg) a luniwyd gan Lywodraeth Cymru yn cynorthwyo ysgolion i ddeall, rheoli a gweithredu eu hamgylchedd digidol. Mae'r Safonau hefyd yn darparu canllawiau ar sut y dylai ysgolion baratoi eu hamgylchedd digidol ar gyfer y dyfodol i fodloni anghenion cwricwlwm ysgol sy'n canolbwyntio mwy ar yr ochr ddigidol. Mae'r Safonau yn cynrychioli arfer gorau i ysgolion allu bodloni eu hanghenion digidol. Fodd bynnag, derbynnir bod ysgolion yn gweithredu gydag adnoddau prin, ac y bydd angen iddynt gynllunio i gyrraedd y safonau dros amser.

4.6 Er y bydd yr awdurdod lleol yn darparu'r seilwaith angenrheidiol i gefnogi'r strategaeth hon drwy Raglen Seilwaith Hwb, lle bo'n berthnasol, bydd angen i ysgolion ddeall goblygiadau unrhyw benderfyniad unochrog i wyro oddi wrth y gefnogaeth hon.

4.7 Er bod penaethiaid yn rhydd i wneud eu penderfyniadau eu hunain ynghylch y galedwedd, y feddalwedd a'r systemau y gallant fuddsoddi ynddynt, mae'r strategaeth hon yn seiliedig ar ryng-ddibyniaeth. Mae hynny'n golygu y gallai

penderfyniad ysgol unigol i beidio buddsoddi yn hynny effeithio, yn y pen draw, ar ragolygon yr ysgol o gymharu â'r rhai sydd wedi gwneud ymrwymiad o'r fath.

4.8 Er mwyn cynnal cefnogaeth Llywodraeth Cymru o ran buddsoddi mewn technoleg a thrwyddedau a sicrhau cynaliadwyedd, dylai pob ysgol ystyried mabwysiadu'r offer a'r gwasanaethau a ddarperir drwy Raglen Hwb er mwyn manteisio ar opsiynau i ddiogelu i'r dyfodol.

4.9 Yn sgil gweithredu Hwb ar draws ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr, ceir rhwydwaith unedig ar gyfer ysgolion, wedi'i gyfuno'n storfa ar-lein a weithredir ac sy'n hygyrch drwy Hwb.

4.10 Mae Tabl 1 isod yn rhoi cipolwg lefel uchel o ddysgu ac addysgu ac o'r gwaith i reoli a gweinyddu swyddogaethau digidol o dan y rhwydwaith unedig.

**Tabl 1 Swyddogaethau digidol cwricwlwm a gweinyddu lefel uchel a gaiff eu rheoli yn Hwb:**

| **Cwricwlwm**<br>**Dysgu ac Addysgu** | | **Gwein**<br>**Rheoli a gweinyddu** |
|---|---|---|
| Hyrwyddo dysgu ac addysgu cydweithredol 'seiliedig ar y cwmwl' oddi mewn ac oddi allan i'r ystafell ddosbarth | | Gwella mynediad pawb at dechnoleg ddigidol |
| Cefnogi dulliau cynhwysol ac arloesol o ddysgu ac addysgu | | Darparu mynediad unrhyw bryd, o unrhyw le |
| Darparu amgylchedd diogel i bob defnyddiwr er mwyn gwella a chyfoethogi'r dysgu | | Darparu ardal storio data ddiogel i sicrhau cydymffurfiaeth ysgolion â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) |
| Galluogi athrawon a dysgwyr i gyfathrebu'n effeithiol drwy ddulliau digidol | | Darparu system gyfathrebu ddiogel |
| Galluogi cynhyrchu, rhannu a defnyddio dysgu o ansawdd uchel drwy adnoddau digidol | | Hyrwyddo mynediad at system Hwb sy'n hygyrch i holl randdeiliaid yr ysgol. |
| Galluogi dulliau mwy arloesol o ddysgu ac addysgu | | |
| Sicrhau technolegau digidol hygyrch yn y ddarpariaeth ddatblygedig | | Sicrhau mynediad at dechnolegau a all wella llif gwaith a gwneud tasgau gweinyddol yn effeithlon. |
| Galluogi rhieni/gofalwyr i ymgysylltu â dysgu eu plentyn | | |

## 5. Diben y strategaeth

5.1 Diben y strategaeth hon yw amlinellu nodau ac uchelgeisiau'r awdurdod lleol o ran harneisio technoleg ddigidol i gefnogi dysgu ac addysgu arloesol yn ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr.

5.2 Bydd y strategaeth yn cael ei hadolygu'n flynyddol gan y Grŵp Strategaeth TGCh Ysgolion ac, yn ôl yr angen, yn cael ei diweddaru yng ngoleuni datblygiadau technolegol a chynnydd y cynllun gweithredu. Bydd y strategaeth hefyd yn cael ei hadolygu gan Gymdeithas Penaethiaid Ysgolion Arbennig ac Ysgolion Uwchradd Pen-y-bont ar Ogwr (BASSH), Ffederasiwn Cynradd Pen-y-bont ar Ogwr a 'Thîm Pen-y-bont ar Ogwr' (grŵp penaethiaid traws-gyfnodol, swyddogion ac aelodau etholedig yr awdurdod lleol) yn flynyddol. Bydd y Swyddog Diogelu Data Corfforaethol hefyd yn adolygu'r ddogfen.

5.3 Bydd y broses o roi'r strategaeth ar waith yn ymarferol yn cael ei monitro gan:

- Grŵp Strategaeth TGCh Ysgolion (bob hanner tymor);
- y Bwrdd Perfformiad a Monitro Ariannol (bob mis); a'r
- Grŵp Gwella Ysgolion (bob hanner tymor).

5.4 Rhoddir diweddariadau ffurfiol i'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol a'r Cabinet yn flynyddol.

5.5 Mae Tabl 2 isod yn dangos proses llywodraethu ac adrodd Strategaeth Dysgu Digidol Ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr.

**Tabl 2 Proses llywodraethu ac adrodd Strategaeth Dysgu Digidol Ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Grŵp Gwella Ysgolion | Bwrdd Perfformiad a Monitro Ariannol | Y Cabinet | Bwrdd Rheoli Corfforaethol | Fforwm Cyllideb Ysgolion |
| ⬍ | | **Grŵp Strategaeth TGCh yr Ysgolion** | ⬍ | |
| **Tîm Darparu TGCh** | 'Tîm Pen-y-bont ar Ogwr' (gan gynnwys BASSH a'r Ffederasiwn Cynradd) | Bwrdd Partneriaeth Strategol | Grŵp Adolygu CLG | Grŵp Arweinwyr Digidol |

5.6 Bydd Grŵp Strategaeth TGCh yr Ysgolion yn gyfrifol am oruchwylio pob agwedd ar raglen dysgu digidol Pen-y-bont ar Ogwr, gan gynnwys gweithgarwch yn gysylltiedig â threfniadau cyllido Technoleg Addysg Hwb. Bydd Grŵp Strategaeth TGCh yr Ysgolion yn adrodd wrth uwch swyddogion ac aelodau etholedig fel yr amlinellir ym mharagraffau 5.3 a 5.4.

5.7 Gellir gweld cylch gorchwyl Grŵp Strategaeth TGCh yr Ysgolion yn Atodiad A.

5.8 Mae cynllunio a chyllidebu yn agwedd sylfaenol er mwyn croesawu technoleg ddigidol a dysgu digidol. Dylai hyn gyd-fynd â datblygiad cwricwlwm cyffredinol ysgolion. Dylai ysgolion gynllunio ar gyfer cylch oes cyfan technoleg ddigidol a chynnwys gwariant fel ymrwymiad parhaus yn eu cyllidebau. Er mwyn cynnal datrysiad cadarn sy'n addas i'r diben, dylai ysgolion ddisgwyl gorfod gwario'n barhaus.

5.9 Bydd yr awdurdod lleol yn gweithio'n agos gyda'i ysgolion i wneud y mwyaf o'r buddsoddiad y mae ysgolion yn ei wneud yn eu hamgylcheddau digidol. Drwy'r dull hwn byddwn yn sicrhau bod ysgolion yn cynllunio, rheoli a chynnal seilwaith eu rhwydwaith yn effeithiol i gefnogi darpariaeth dysgu ac addysgu - ar gyfer gofynion y presennol a'r dyfodol.

5.10 Dylai arweinwyr ysgolion allu dangos sut y byddant yn defnyddio ac yn rheoli technoleg ddigidol i ddiwallu gofynion eu hysgol a'u dysgwyr. Dylent hefyd fod yn hyderus eu bod yn cydymffurfio â'u rhwymedigaethau statudol (er enghraifft, seiberddiogelwch, diogelu a rheoli data). Mae hyn yn arbennig o bwysig ac ystyried y Fframwaith Cymhwysedd Digidol a chwricwlwm sy'n canolbwyntio mwy ar agweddau ddigidol.

5.11 Bydd yr awdurdod lleol yn gweithio gydag ysgolion i adolygu eu cynlluniau TGCh yn flynyddol er mwyn cadw ffocws a chefnogi gwelliant parhaus. Bydd yr awdurdod lleol yn ymgynghori ag ysgolion i nodi eu hanghenion o ran technoleg er mwyn cefnogi cynaliadwyedd a chael y gorau o fuddsoddiadau mewn technoleg yn y dyfodol.

5.12 Wrth inni fanteisio ar fwy a mwy o offer a gwasanaethau digidol yn ein dysgu a'n haddysgu, mae'n bwysig, er mwyn i ysgolion allu cynllunio'n strategol, ystyried y trefniadau ar gyfer technoleg ddigidol a lefel y buddsoddiad sydd ei hangen i gynnal yr amgylchedd hwn. Bydd angen i ysgolion ystyried cynigion yn y dyfodol i ymgorffori dysgu digidol ymhellach a deall pa effaith y gallai hyn ei chael ar gylchoedd cynllunio a buddsoddi. Bydd yr awdurdod lleol yn cynghori ysgolion ynghylch sut y gall rhwydwaith yr ysgol gefnogi'r gofynion hynny a sut y gall technoleg ddigidol gefnogi cynlluniau'r cwricwlwm ehangach.

5.13 Dylai arweinwyr ysgolion sicrhau bod cynlluniau ysgol cyfredol yn blaenoriaethu datblygiadau ar gyfer eu hysgol, a chynnwys hyn yng nghynllun gwella eu hysgol. Mae hyn yn bwysig gan ei fod yn caniatáu i ysgolion werthuso effeithiolrwydd eu strategaeth neu eu cynlluniau digidol neu ddal staff yn gyfrifol am ddatblygiadau. Mae diffyg strategaeth neu gynllun

pwrpasol hefyd yn cyfyngu ar effeithiolrwydd llywodraethwyr wrth werthuso'r ddarpariaeth a mesur cynnydd.

5.14 Dylai arweinwyr ysgolion gefnogi cyfleoedd i staff ymgysylltu â rhwydwaith cymorth Grŵp Arweinwyr Digidol yr awdurdod lleol. Bydd hyn yn sicrhau y gall ymarferwyr ysgolion (gan gynnwys arweinwyr digidol) dderbyn diweddariadau dysgu proffesiynol perthnasol a gwybodaeth am dechnoleg sy'n cefnogi Cwricwlwm i Gymru a datblygiadau arloesol ehangach o ran dysgu ac addysgu digidol.

## 6. Cyfeiriad y Daith

### Y Sefyllfa Bresennol

6.1 Mae pob ysgol ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn defnyddio datrysiad band eang Prosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus sy'n darparu cyswllt 100Mbit i holl ysgolion cynradd Pen-y-bont ar Ogwr (gan gynnwys ysgolion babanod, ysgolion iau ac ysgolion arbennig) ac 1Gbit i holl ysgolion uwchradd Pen-y-bont ar Ogwr. Ceir mynediad i ryngrwyd ysgolion cynradd, arbennig ac uwchradd drwy ddatrysiad WebSafe y Prosiect. Mae'r awdurdod lleol hefyd yn darparu datrysiad VoIP i'r rhan fwyaf o'i ysgolion sy'n cael ei reoli a'i gefnogi'n ganolog drwy'r CLG TGCh.

6.2 Mae mwyafrif ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr bellach yn defnyddio SharePoint, Team a OneDrive a gynhelir gan Hwb er mwyn storio a chydweithio ar ddata. Mae rhai ysgolion cyfun yn eithriad i hyn ac yn parhau i ddefnyddio eu tenant O365 eu hunain i gadw data. Safbwynt CBSP yw y dylai pob ysgol ddefnyddio Hwb er mwyn storio data a chydweithio ar draws/rhwng ysgolion. Mae pob ysgol yn defnyddio SIMS ParentPay Group Services Limited (PPGSL) a gynhelir yn y cwmwl PPGSL. Defnyddir cyfeiriadau e-bost Hwb gan holl ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr er mwyn cyfathrebu'n allanol. Cynghorir yr ysgolion hynny sy'n defnyddio eu tenant O365 eu hunain ar hyn o bryd i fudo i Hwb er mwyn sicrhau cyfathrebu diogel.

6.3 Mae'r awdurdod lleol yn cynghori y dylai pob ysgol symud i ffwrdd oddi wrth y parth schools.local a ddarparwyd yn flaenorol a mudo i reolaeth Intune a ddarperir gan Hwb er mwyn Rheoli Dyfeisiau Symudol a rheoli pwynt terfynol.

### Datblygiadau yn y Dyfodol

6.4 Mae Hwb yn darparu cyfres o adnoddau a rhaglenni ar-lein arloesol a datblygol i'w defnyddio gan ysgolion yn yr ystafell ddosbarth. Gellir defnyddio'r rhain yn rhad ac am ddim, a gall yr holl ddisgyblion ac athrawon mewn ysgolion a gynhelir eu cyrchu. Mae'r offer hyn yn cynnwys Microsoft 365, Google Workspace for Education, Just2easy, Adobe Creative Cloud ac amrywiaeth eang o offer ychwanegol i gefnogi dulliau modern o dysgu ac addysgu.

6.5 Bydd yr awdurdod lleol, mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru, Consortiwm Canolbarth y De a phartneriaid technoleg, yn hyrwyddo'r defnydd

o Hwb mewn ysgolion yn weithredol a byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda chydweithwyr o Lywodraeth Cymru i hwyluso a chefnogi'r newid i dechnolegau Hwb.

6.6 Mae Cynllun Mudo Hwb Ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr yn cefnogi ysgolion i fabwysiadu offer a gwasanaethau Hwb. Mae hyn er mwyn sicrhau y gall holl ddefnyddwyr yr ysgol, gan gynnwys staff addysgu, staff nad ydynt yn addysgu, a dysgwyr gael mynediad diogel a defnyddio technoleg sy'n seiliedig ar y cwmwl i wella dysgu ac addysgu a thasgau gweinyddol.

6.7 Mae cefnogi pob ysgol sy'n symud i offer a gwasanaethau digidol Hwb yn hanfodol er mwyn sicrhau effeithlonrwydd cost, tegwch, buddion diogelwch a diogelu seilwaith addysgol ar gyfer y dyfodol. Mae'r strategaeth ddigidol hon yn dadlau o blaid newid o sefyllfa lle mae gan ysgolion denantiaid meddalwedd 'eu hunain', e-bost, cyfleuster storio data a rheolaeth ar ddyfeisiau ar-safle i ddatrysiad Hwb yn rhan o gynllun mudo Hwb Ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr.

6.8 Bydd yr awdurdod lleol yn cynghori ysgolion ynghylch cynllunio i fudo i Hwb a gweithredu newid, gan sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cael sicrwydd ynghylch ymrwymiad ysgolion yr awdurdod lleol i Raglen Hwb.

6.9 Bydd yr awdurdod lleol yn cefnogi ysgolion i fuddsoddi mewn technoleg i'r dyfodol dry raglen gyllido Technoleg Addysg a Hwb er mwyn sicrhau y buddsoddir yn y dechnoleg briodol i gefnogi dysgu ac addysgu a'r Cwricwlwm i Gymru.

6.10 Mae'r awdurdod lleol wedi ymrwymo i sicrhau bod gan bob dysgwr fynediad cyfartal at brofiadau dysgu digidol o ansawdd uchel a dyfeisiau a chysylltedd priodol, drwy fuddsoddiad cynaliadwy a chymorth wedi'i dargedu ar gyfer technoleg drwy Raglen Hwb.

6.11 Mae defnyddio offer a gwasanaethau Hwb ar draws pob ysgol yn hyrwyddo mynediad cyson a chynhwysol at adnoddau digidol, tra dylid rhoi sylw penodol i adnabod a chefnogi dysgwyr sydd dan anfantais ddigidol.

6.12 Ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), mae'r strategaeth yn hyrwyddo defnyddio technolegau cynorthwyol ac offer dysgu personol, ochr yn ochr â dysgu proffesiynol i staff a chydweithio â chydlynwyr ADY i sicrhau bod darpariaeth ddigidol wedi'i theilwra i gyd-fynd ag anghenion unigol.

6.13 Mae asesiadau digidol mewn Cymwysterau Cenedlaethol 14-16 (arholiad a di-arholiad) yn gwella ymgysylltiad dysgwyr, yn rhoi adborth ar unwaith, ac yn sicrhau cynhwysiant. Maent hefyd yn symleiddio prosesau gweinyddol a gallant wella diogelwch arholiadau. Felly, rhaid i ysgolion hefyd ystyried eu buddsoddiadau digidol a thechnolegol er mwyn sicrhau y gellir hwyluso asesiadau ac arholiadau digidol i bob dysgwr.

Lle bo'n berthnasol, rhaid i ysgolion sicrhau y gall eu technoleg gefnogi:

- asesiad ar y sgrin;
- ysgogiadau clywedol a gweledol mewn arholiadau digidol;
- cwblhau a chyflwyno asesiadau di-arholiad mewn fformatau digidol;
- asesiadau digidol y gellir eu cymryd ar ddyfeisiau Windows, macOS, iOS, Android a Chromebook perthnasol; ac
- amserlen Cymwysterau Cenedlaethol 14-16 ar gyfer 2025 i 2027

## 7. Cysoni â Safonau Digidol Addysg Llywodraeth Cymru

7.1 Mae Safonau Digidol Addysg Llywodraeth Cymru (https://hwb.llyw.cymru/canolfan-gymorth/safonau-digidol-addysg/) wedi'u cynllunio i gynorthwyo ysgolion i ddeall, rheoli a gweithredu eu hamgylchedd digidol. Mae'r Safonau hefyd yn darparu canllawiau ar sut y dylai ysgolion baratoi eu hamgylchedd digidol ar gyfer y dyfodol i fodloni anghenion cwricwlwm ysgol sy'n canolbwyntio mwy ar yr ochr ddigidol.

7.2 Rhagwelir y bydd y Safonau'n cynrychioli datrysiad arfer gorau er mwyn i ysgolion fodloni eu hanghenion digidol. Fodd bynnag, derbynnir bod ysgolion yn gweithredu gydag adnoddau prin, ac y bydd angen iddynt gynllunio i gyrraedd y Safonau dros amser.

7.3 Bydd yr awdurdod lleol yn cydweithio'n agos â'i ysgolion i roi cyngor ac arweiniad ar sut y gall ysgolion fodloni'r Safonau hyn. Byddwn yn cysylltu ag ysgolion i sicrhau bod yr holl waith yn gysylltiedig â seilwaith yn cydymffurfio â'r Safonau.

## 8. Diogelwch ar-lein

8.1 Mae angen i bob ysgol gael mesurau ar waith i ddiogelu eu dysgwyr. Mae hyn yn cynnwys sut maen nhw'n rheoli eu data a sut maen nhw'n sicrhau bod yr amgylchedd ar-lein yn ddiogel. Mae rhagor o wybodaeth ar gael drwy Barth Diogelwch Ar-lein Hwb: https://hwb.gov.wales/zones/keeping-safe-online/

8.2 Argymhellir bod ysgolion yn cynnal hunanadolygiad o'r meysydd diogelwch ar-lein angenrheidiol. Gellir defnyddio fframwaith hunanadolygu 360 Safe Cymru ar Hwb i gefnogi ystyriaethau ar gyfer risgiau hunanadolygu, polisi ac ymarfer.

8.3 Argymhellir defnyddio amgylchedd dysgu ar-lein Hwb i gadw data dysgwyr yn ddiogel, ac mae'r cyfleuster hefyd yn cadw copi wrth gefn diogel o'r data. Lle defnyddir gweinyddion lleol, bydd yr awdurdod lleol yn rhoi cyngor ar wneud copi wrth gefn o ddata, ond mae'r strategaeth hon yn argymell defnyddio datrysiadau Hwb ar gyfer data.

8.4 Gellir cael mynediad at amrywiaeth o offer Hwb drwy rwydwaith y cwricwlwm er mwyn darparu adnoddau dysgu diogel i bob ysgol. Mae Hwb yn cynnig mynediad at offer fel Google Workspace for Education, Microsoft Office 365, Just2easy, Adobe Creative Cloud Express a llawer mwy. Mae'r offer hyn yn cefnogi dysgu ac addysgu a darpariaeth Cwricwlwm i Gymru.

8.5 Mae'n bosibl defnyddio cyfeiriad e-bost Hwb yn ddiogel i guddio cyfeiriad e-bost ysgol Pen-y-bont ar Ogwr, a dyma'r dull o weithio mewn ysgolion a gynigir ac a argymhellir.

8.6 Ceir mynediad i system gwybodaeth reoli (MIS) drwy'r datrysiad 'cwmwl' a gellir cadw data lle mae disgyblion yn adnabyddadwy mewn ffeiliau cyffredin o fewn yr amgylchedd a gynhelir gan PPGSL, ac y gwneir copi wrth gefn ohono bob nos. Fel arall, gellir cadw data'r disgyblion hyn y tu allan i'r amgylchedd lletyol a'u cadw o fewn platfform Hwb Llywodraeth Cymru.

8.7 Darperir gwasanaeth hidlo gan PSBA WebSafe ar gyfer ysgolion cynradd, arbennig ac uwchradd. Mae'r datrysiad yn ddigon soffistigedig i fodloni anghenion a gofynion ysgol, ac yn ddigon hyblyg i ymateb i ddigwyddiadau neu newidiadau i'r polisi diogelu cyffredinol.

8.8 Darperir darpariaeth wal dân drwy'r PSBA. Dylai hyn amddiffyn rhwydwaith TG yr ysgol rhag mynediad diawdurdod ond ni ddylai gyfyngu'n ormodol ar weithgarwch defnyddwyr.

## 9. Technolegau datblygol

9.1 Mae technoleg ddatblygol yn cyfeirio at offer, rhaglenni a methodolegau newydd a datblygol a all wella'r dysgu a'r addysgu yn sylweddol drwy eu gwneud yn fwy ymgysylltiol, hygyrch ac effeithiol. Mae'r technolegau hyn yn cynnwys datblygiadau fel deallusrwydd artiffisial (AI), technoleg gynorthwyol, dysgu wedi'i bersonoli, cynnwys elfennau gêm, a realiti rhithwyr ac estynedig (VR ac AR).

9.2 Dylai ysgolion hyrwyddo a cheisio integreiddio cyfleoedd am dechnoleg ddatblygol sy'n cefnogi arferion dysgu ac addysgu arloesol yn eu cwrwciwlwm. Gall technolegau fel deallusrwydd artiffisial (AI), technoleg gynorthwyol, dysgu wedi'i bersonoli, cynnwys elfennau gêm, a realiti rhithiol ac estynedig (VR ac AR) wella ymgysylltiad dysgywr, gyda photensial i hynny arwain at ddeilliannau dysgu gwell.

9.3 Mae'n hanfodol sicrhau bod gan bob dysgwr fynediad cyfartal at dechnolegau datblygol, gan roi'r offer a'r cyfleoedd iddynt lwyddo mewn amgylchedd addysg modern. Mae llawer o dechnolegau newydd a datblygol ar gael o fewn Hwb i bob ymarferydd a dysgwr. Darperir yr offer hyn i gefnogi'r dysgu a'r addysgu.

9.4 Bydd yr awdurdod lleol yn cynghori ac yn cefnogi ysgolion, gan sicrhau y gall seilwaith a dyfeisiau gefnogi'r defnydd o dechnolegau datblygol yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys datrysiadau i uwchraddio rhwydweithiau ysgol i ymdrin â rhaglenni lled band uchel, a sicrhau mynediad dibynadwy i'r rhyngrwyd, gyda mynediad hyblyg at adnoddau addysg y gellir ei ehangu'n unol ag anghenion.

9.5 Rhaid i ysgolion ystyried y buddsoddiadau angenrheidiol mewn caledwedd a meddalwedd sy'n anhepgor ar gyfer technolegau datblygol. Bydd yr awdurdod lleol yn parhau i gynnig cefnogaeth ar gyfer y dechnoleg fwyaf priodol sydd ar gael drwy'r Gwasanaeth Masnachol Technoleg Addysg, gan sicrhau y gall ysgolion fanteisio ar gyfleoedd sy'n dod i'r amlwg ym myd technoleg.

9.5 Yn ogystal â phartneriaethau â Hwb, Consortiwm Canolbarth y De, a sefydliadau technoleg, bydd rhwydweithiau awdurdodau lleol, gan gynnwys y Grŵp Arweinwyr Digidol, a Grŵp Strategaeth TGCh Ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr yn rhannu, hyrwyddo a darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol sy'n canolbwyntio ar dechnolegau datblygol ac arferion addysgu arloesol. Bydd yr awdurdod lleol yn rhannu cyfleoedd a datblygiadau digidol ag ysgolion er mwyn helpu defnyddwyr technoleg i gael yr wybodaeth a'r sgiliau diweddaraf er mwyn integreiddio technolegau newydd yn effeithiol.

## 10. Deallusrwydd Artiffisial a Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol

10.1 Mae Deallusrwydd Artiffisial (AI) yn cyfeirio at dechnolegau sy'n gallu y mae angen deallusrwydd dynol i'w cyflawni fel arfer. Mae'r tasgau hyn yn cynnwys dysgu, rhesymu, datrys problemau, canfyddiad, gwneud penderfyniadau ac adnabod lleferydd.

10.2 Gall offer AI cynhyrchiol greu cynnwys fel testun, delweddau, cerddoriaeth a fideos yn seiliedig ar awgrymiadau defnyddwyr. Gellir defnyddio offer o'r fath i ateb cwestiynau,dadansoddi gwybodaeth, cofio'r ymatebion a ddarparwyd ganddynt yn flaenorol ac ymateb i'r defnyddiwr mewn ffordd debyg i fod dynol.

10.3 Rhaid i ysgolion a lleoliadau addysg fod yn barod i addasu i'r newidiadau a ddaw yn sgil technolegau newydd, fel deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol (a elwir hefyd yn 'AI cynhyrchiol') Mae hyn yn cynnwys deall a manteisio ar y cyfleoedd addysgol y mae'r technolegau hyn yn eu cynnig, yn ogystal ag ystyried strategaethau i liniaru unrhyw risgiau cysylltiedig.

10.4 Dylai dull ysgol o ddefnyddio deallusrwydd artiffisial (AI) gyd-fynd â chanllawiau Llywodraeth Cymru 'Deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol mewn addysg – Cyfleoedd ac ystyriaethau i ysgolion wrth ddefnyddio deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol (AI)' https://hwb.gov.wales/school-improvement-and-leadership/education-digital-standards/generative-artificial-intelligence-in-education

Mae'n hanfodol bod pob rhanddeiliad yn yr ysgol, gan gynnwys dysgwyr, yn cael eu cefnogi i ddefnyddio technolegau datblygol, fel deallusrwydd artiffisial. Drwy roi cefnogaeth ac arweiniad effeithiol, gellir sicrhau bod yr offer pwerus hyn yn cael eu defnyddio i wella addysg gan feithrin y gallu i feddwl yn feirniadol a diogelu rhag risgiau posibl a phryderon moesegol.

10.5 Wrth integreiddio offer Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol i ddysgu ac addysgu, mae'n hanfodol i addysgwyr gaffael y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i ddefnyddio'r dechnoleg hon yn effeithiol. Dylai ysgolion chwilio am gyfleoedd am ddysgu proffesiynol a hyfforddiant sgiliau er mwyn sicrhau bod AI yn cael ei ddefnyddio mewn modd diogel, moesegol a chyfrifol.

10.6 Mae'n bwysig i ysgolion ddeall yr ystyriaethau diogelwch a rheoli data ar gyfer Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol mewn ysgolion. Cyn caniatáu mynediad (i staff a dysgwyr) at offer Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol, dylai ysgolion ystyried y canlynol:

- Asesu Risg: Dylai ysgolion gynnal asesiad risg wedi'i lywio gan y meysydd canlynol:
    - Dysgu proffesiynol a hyfforddiant sgiliau AI
    - Torri Rheolau Diogelu Data a Phreifatrwydd
    - Camddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial
    - Dysgu ac Addysgu
    - Asesiadau a Chymwysterau
    - Contract ar gyfer Cynnwys, Cyswllt ac Ymddygiad Amhriodol
    - Rhagfarn a Gwahaniaethu
    - Camwybodaeth a Thwyllwybodaeth
    - Y Gagendor Digidol
    - Cyfathrebu â Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol
    - Cydymffurfio â'r Gyfraith
    - Seiberddiogelwch

- Cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR): Dylai ysgolion atgoffa defnyddwyr deallusrwydd artiffisial ynghylch eu cyfrifoldebau diogelu data yn unol â'r GDPR.

- Polisi AI: Dylai ysgolion fabwysiadu polisi AI sy'n rheoli'r defnydd o AI ac yn hyrwyddo arfer gorau (diogel, moesegol a chyfrifol)

- Cytundeb Defnydd Derbyniol: Dylai ysgolion sefydlu Cytundebau Defnydd Defnyddiol ar gyfer holl ddefnyddwyr yr ysgol. Rhaid i ddefnyddwyr ddeall eu cyfrifoldebau dros liniaru risgiau cysylltiedig.

- Achos defnydd AI: Dylai ysgolion sefydlu'n glir beth yw diben cyrchu a defnyddio offer AI penodol yn rhan o'u gwaith cynllunio digidol ehangach. Dylai ysgolion ddeall y manteision o gymharu â'r risgiau, ac ystyried dangosyddion mesuradwy i bennu defnydd effeithiol a moesegol o AI.

- Costau posibl: Rhaid i ysgolion fod yn ymwybodol o gostau ychwanegol os oes angen uwchraddio lled band yr ysgol oherwydd y galw am offer AI, a chynnydd yn y defnydd ohonynt ar draws y rhwydwaith.

- Mynediad at offer AI: Gall ysgolion ofyn am ddileu bloc penodol o offer AI (offer AI nad ydynt yn cael eu darparu gan Hwb) i'w hysgol eu hunain drwy gysylltu â Chymorth TGCh CBSP (drwy ddefnyddio'r Ffurflen Gais Offer Deallusrwydd Artiffisial (AI) - gweler Atodiad CH).

10.7 Gall systemau ac offer AI gynnig manteision sylweddol o ran dysgu, addysgu ac asesu. Er mwyn sicrhau dilysrwydd gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr, mae'n hanfodol diogelu hygrededd cymwysterau ac asesiadau. Mae hyn yn cynnwys ystyried sut y bydd cynnwys cymwysterau'n cael ei gyflwyno drwy ddefnyddio technoleg ddigidol (gan gynnwys AI, a lle bo dysgwyr yn sefyll eu hasesiadau, bydd yn rhaid ystyried lefelau rheolaeth er mwyn sicrhau dilysrwydd tystiolaeth asesu.

10.8 Bydd angen i ysgolion gynllunio ar gyfer yr effaith y gall Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol ei chael ar gymwysterau ac asesiadau. Rhaid i ysgolion sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r canllawiau a amlinellir gan y Cyd-Gyngor Cymwysterau (JCQ). Mae'r Cyd-Gyngor, rheoleiddwyr cymwysterau, sefydliadau dyfarnu, staff addysgol, arholwyr a chymedrolwyr wedi sefydlu gweithdrefnau ar gyfer nodi, adrodd ac ymchwilio i gamddefnydd a chamymarfer yng nghyswllt deallusrwydd artiffisial. https://www.jcq.org.uk/exams-office/malpractice/artificial-intelligence/

## 11. Strategaeth MIS (system gwybodaeth reoli)

11.1 Yr MIS a ddefnyddir ledled ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr yw System Rheoli Gwybodaeth Ysgolion (Sims.net) a System Rheoli Cyllid (FMS) ParentPay Group Services Limited (PPGSL). Mae PPGSL yn cynnal y system hon ochr yn ochr â meddalwedd Sims y Genhedlaeth Nesaf yn y cwmwl, a gyrchir gan ysgolion drwy ddyfeisiau wedi'u cysylltu â'r rhyngrwyd, gan gynnwys Windows, MAC, OSX, iOS, Google Chromebooks ac Android.

11.2 Mae Cytundeb Lefel Gwasanaeth yr MIS yn darparu'r canlynol i ysgolion:

- darpariaeth barhaus a chefnogaeth i fodloni datganiadau a gofynion statudol newidiol ar gyfer CYBLD Ôl-16 (Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion) Cyfrifiad Blynyddol y Gweithlu Addysg, Cyfrifiad Catholig a phresenoldeb i Lywodraeth Cymru;
- darpariaeth barhaus a chefnogaeth ar gyfer modiwlau ychwanegol fel In Touch, Parent App, Student and Teacher App; ac
- ymgynghoriaeth i adeiladu systemau olrhain asesiadau, dadansoddi ac adrodd pwrpasol ar gyfer ysgolion. Cymryd rhan mewn prosiectau sy'n canolbwyntio ar awdurdodau lleol i ddefnyddio'r system MIS i echdynnu data i'w dadansoddi mewn sawl fformat ar gyfer ysgolion a swyddogion awdurdodau lleol.

11.3 Defnyddir amrywiaeth o becynnau meddalwedd ledled yr awdurdod lleol sy'n welliant i'r System MIS gyfredol a ddefnyddir gan holl ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr. Nid yw'r systemau hyn sy'n seiliedig ar ysgolion yn cael eu cefnogi'n llawn gan Wasanaeth TGCh yr awdurdod lleol.

11.4 Mae contract SIMS presennol PPGSL presennol ar waith tan 31 Mawrth 2027. Bydd is-grŵp Strategaeth yn edrych ar gyflenwyr amgen a SIMS y Genhedlaeth Nesaf rhwng 2025 a 2026 gyda'r bwriad o fynd i'r farchnad yn y flwyddyn ariannol 2026-2027 i chwilio am ddatrysiad addas i'r diben sy'n cynnig y gwerth gorau i ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer 1 Ebrill 2027.

## 12. Rhwydweithiau TG Ysgolion

12.1 Rhaid cynllunio rhwydwaith TG yr ysgol i wneud yn siŵr ei fod yn diwallu anghenion yr ysgol ac yn cynnwys yr ysgol gyfan. Dylai'r broses gynllunio arwain at:

- ddealltwriaeth o sefyllfa bresennol yr ysgolion hyn o safbwynt digidol, ac o unrhyw faterion sy'n effeithio ar weithgarwch cyfredol;
- dealltwriaeth o'r sefyllfa y mae ysgolion eisiau ei chyrraedd, a'r camau nesaf posibl;
- nodi'r gofynion ar gyfer TGCh o ran addysg, y cwricwlwm ac asesu;
- sut y gall yr awdurdod lleol helpu ysgolion i gyflawni amcanion y cwricwlwm ehangach;
- rhwydwaith hyblyg sy'n gallu esblygu ac addasu i ofynion y dyfodol, fel asesu digidol, arholiadau a thechnolegau datblygol;
- deall gallu a chymhwysedd staff a dysgwyr i ymgysylltu ag adnoddau digidol; a
- gofynion penodol sy'n ymwneud ag amgylchiadau unigol.

12.2 Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod bod pob ysgol ar gam gwahanol yn natblygiad gweithgarwch TG a digidol. Felly, bydd angen i'r broses gynllunio ystyried a darparu ar gyfer amgylchiadau'r ysgol, a bydd angen gwahanol lefelau o gefnogaeth a buddsoddiad yn dibynnu ar hynny.

12.3 Bydd yr awdurdod lleol yn gweithio gydag ysgolion i gefnogi gofynion cynllunio strategol. Gofynnir yn benodol i ysgolion ystyried:

- sut mae rhwydwaith TG yr ysgol wedi'i adeiladu a sut mae'n perfformio;
- sut y gellir ehangu rhwydwaith TG yr ysgol i fodloni anghenion y dyfodol;
- sut mae data'n llifo o amgylch rhwydwaith TG yr ysgol; a
- gallu seilwaith rhwydwaith TG presennol yr ysgol i gefnogi uchelgeisiau'r cwricwlwm ehangach.

12.4 Bydd yr awdurdod lleol yn cynghori ysgolion ynghylch prynu caledwedd neu feddalwedd newydd er mwyn sicrhau ystyriaeth lawn o'r costau dros oes yr eitem, yn hytrach na'r costau a hysbysebir (costau cychwynnol). Bydd yr awdurdod lleol yn gweithio gydag ysgolion i sicrhau eu bod yn cael y gwerth gorau am arian drwy ystyried nid yn unig y pris cychwynnol, ond cost y gefnogaeth hefyd: rheoli, trwyddedu; gwarantau; a phrynu eitem newydd yn lle'r un presennol.

12.5 Mae'n ofynnol i ysgolion gydymffurfio â Rheolau Gweithdrefn Contractau y Cynllun Ariannol ar gyfer Ysgolion mewn materion prynu, tendro a chontractio.

12.6 Mae'n rhaid i bob ysgol gael mesurau ar waith i ddiogelu eu dysgwyr. Mae hyn yn cynnwys sut maen nhw'n rheoli eu data a sut maen nhw'n sicrhau bod yr amgylchedd ar-lein yn ddiogel. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod mesurau diogelwch data a rhwydwaith priodol ar waith i sicrhau bod rhwydwaith yr ysgol wedi'i ddiogelu, yn atal mynediad heb awdurdod, ac yn helpu i reoli'r cynnwys ar-lein fel ei fod yn briodol i ddysgwyr.

12.7 Argymhellir bod ysgolion yn mabwysiadu cyfleusterau storio data Microsoft a/neu Google drwy Hwb fel yr amlinellir ym meini prawf mudo a mabwysiadu Hwb – 'ymrwymiad i gynyddu defnydd pob ysgol o gyfleusterau storio data Hwb drwy Microsoft SharePoint, OneDrive a/neu Google Drive.'

## 13. Meddalwedd

13.1 Yn aml, mae meddalwedd wedi'i chynllunio i'w defnyddio mewn senarios, amgylcheddau a lleoliadau penodol. Dylid ystyried priodoldeb meddalwedd mewn ysgolion cyn ei gosod a'i defnyddio. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod lawrlwythiadau'n dod o wefannau dilys a diogel.

13.2 Dylai pob meddalwedd sydd wedi'i gosod ar rwydwaith TG yr ysgol fod yn addas i'w defnyddio mewn amgylchedd rhwydwaith, yn briodol o ran oedran, ac wedi'i thrwyddedu'n gywir gan gynnwys darpariaeth i'w defnyddio mewn amgylchedd aml-ddefnyddiwr, gyda threfniadau cynnal a chefnogi priodol. Bydd hyn yn caniatáu i'r feddalwedd redeg mor effeithiol â phosibl ac yn lleihau unrhyw risg i'r rhwydwaith ehangach yn sgil meddalwedd nad yw'n perfformio'n iawn; neu drwy feddalwedd amhriodol a allai achosi risg o firysau.

13.3 Gall ysgolion ofyn am fesurau ychwanegol i ddadflocio meddalwedd benodol sy'n seiliedig ar y we, yn enwedig offer AI nad ydynt yn cael eu darparu gan Hwb, drwy gysylltu â Chymorth TGCh CBSP. Atgoffir ysgolion i ystyried y pryderon am ddefnydd priodol a rheoli data yn gysylltiedig â'r offer hyn (Gweler adran 10. 'Deallusrwydd Artiffisial (AI) ac AI Cynhyrchiol' am geisiadau offer AI).

13.3 Platfform dysgu digidol a ddarperir i ysgolion yng Nghymru yw Hwb. Mae'n darparu ystod o feddalwedd addysgol i ysgolion ei defnyddio ar gyfer dysgu ac addysgu a thasgau gweinyddol. Argymhellir mabwysiadu'r pecynnau meddalwedd hyn a ddarperir ar Hwb cyn ystyried defnyddio meddalwedd debyg nad yw wedi'i chynnwys ar Hwb. Mae enghreifftiau o'r tenantiaid a'r platfformau sydd ar gael i ysgolion drwy Hwb yn cynnwys Microsoft365, Google Workspace, Adobe Creative Cloud a Just2easy.

13.4 Ceir rhestr o feddalwedd a argymhellir yn Atodiad B.

## 14. Data personol

14.1 Data personol yw gwybodaeth am unigolion adnabyddadwy. Mae'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) yn diffinio'r gofynion cyfreithiol sy'n berthnasol o ran defnyddio data personol.

14.2 Diwygiwyd Deddf Diogelu Data'r DU yn 2018 ac mae'n gweithredu gofynion GDPR yng nghyfraith y DU.

14.3 Mae'r rhagofalon y dylid eu cymryd yn berthnasol waeth beth fo'r math o gyfrwng. Er enghraifft, gall fod angen mesurau diogelwch ar gyfer pob un o'r canlynol os ydynt yn cynnwys data personol:

- negeseuon e-bost;
- ffotograffau;
- dogfennau electronig; a
- nodiadau wedi'u hysgrifennu â llaw.

14.4 Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) yn cyhoeddi canllawiau a chodau ymarfer ar ei gwefan sy'n berthnasol i ddiogelu data a data personol – 'I sefydliadau / canllawiau ac adnoddau GDPR y DU'https://ico.org.uk/

## 15. Argymhellion ar gyfer arweinwyr mewn ysgolion

15.1 Mae'n bwysig bod arweinwyr ysgolion yn cynnwys holl randdeiliaid yr ysgol wrth greu gweledigaeth ar gyfer dysgu digidol a sicrhau bod eu corff llywodraethu yn deall yn llawn pa mor bwysig yw gweithredu'r weledigaeth honno'n dda. Dylai arweinwyr ysgolion gyfleu eu gweledigaeth yn glir wrth bob rhanddeiliad, gan sicrhau bod pawb yn deall sut y gallant gefnogi dysgu digidol a monitro ei gynnydd yn ofalus.

15.2 Dylai arweinwyr ysgolion drosi eu gweledigaeth yn gynllun cynhwysfawr ac ymarferol i hyrwyddo dysgu digidol a rhoi rhesymeg glir ar gyfer archwilio, hyfforddi, darparu adnoddau, monitro a gwerthuso datblygiadau.

15.3 Dylai arweinwyr ysgolion gefnogi cyfleoedd dysgu proffesiynol effeithiol i staff, gan gynnwys cyfleoedd dysgu digidol. Mae angen i arweinwyr ysgolion sicrhau bod staff yn cael y cyfleoedd a'r offer digidol i ddatblygu cymhwysedd a hyder wrth ddefnyddio technoleg yn effeithiol ar gyfer dysgu ac addysgu.

Mae rhagor o wybodaeth ynghylch canllawiau Taith Ddysgu Proffesiynol Ddigidol Llywodraeth Cymru ar gael yma: https://hwb.gov.wales/dysgu-proffesiynol/dysgu-proffesiynol-gydol-gyrfa/taith-ddysgu-proffesiynol-ddigidol/taith-ddysgu-proffesiynol-ddigidol-strwythur

15.4 Mae'r awdurdod lleol yn argymell bod gan bob ysgol arweinydd digidol dynodedig a bod arweinwyr digidol yn hyddysg iawn mewn dysgu digidol.

15.5 Dylid cefnogi ac annog arweinwyr digidol ysgolion yn weithredol i gymryd rhan yn rhwydwaith Grŵp Arweinwyr Digidol yr awdurdod lleol. Mae'r rhwydwaith proffesiynol hwn yn cynnig cefnogaeth helaeth ar gyfer dysgu ac addysgu digidol, gan gydweithio'n agos â thîm Addysg ac Ymgysylltu Hwb Llywodraeth Cymru, Consortiwm Canolbarth y De, a phartneriaid technoleg eraill. Drwy ymgysylltu â'r rhwydwaith hwn, gall arweinwyr digidol gael mynediad at ystod eang o gyfleoedd dysgu proffesiynol ac arweiniad ar dechnoleg, gan wella eu rôl a chyfrannu at ddatblygiadau digidol ehangach eu hysgol.

15.5 Mae effeithiolrwydd arweinwyr digidol ar ei orau pan fydd ganddynt gefnogaeth lawn uwch arweinwyr. Mae arweinwyr digidol mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig yn fwyaf effeithiol pan fyddant yn aelodau o'r tîm arwain neu'n gallu dylanwadu fel arall ar benderfyniadau ysgol gyfan sy'n gysylltiedig â chynllunio a datblygu'r cwricwlwm digidol a thechnoleg.

15.6 Dylai person neu dîm dynodedig o fewn ysgolion gynnal archwiliadau rheolaidd (er enghraifft, o leiaf yn flynyddol) o galedwedd, meddalwedd a seilwaith rhwydwaith i sicrhau eu bod yn ddigon cadarn i ddarparu dysgu digidol effeithiol, gan sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Safonau Addysg Digidol.

15.7 Dylai ysgolion archwilio sgiliau athrawon yn ofalus i werthuso eu parodrwydd i gyflwyno dysgu digidol. Dylai ysgolion wneud defnydd da o'r wybodaeth o'r archwiliad i gynllunio hyfforddiant, wedi'i wasgaru dros amserlen realistig.

15.8 Dylid atgoffa arweinwyr ysgolion i ystyried effaith asesiadau digidol yn y dyfodol yng Nghymwysterau Cenedlaethol 14-16 a chynllunio ar gyfer y capasiti a'r cynaliadwyedd angenrheidiol i'w gweinyddu'n effeithiol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau seilwaith technolegol digonol, hyfforddi staff, a datblygu strategaethau i gynorthwyo dysgwyr i addasu i fformatau digidol (gweler Datblygiadau yn y dyfodol yn 6.10).

## 16. Cynllun gweithredu – Cynllun tair blynedd ac amcanion/canlyniadau

### Blwyddyn 1: Blwyddyn ysgol 2025-2026

| Eitem | Allbwn | Amcan | Canlyniad |
|---|---|---|---|
| 1.1 | Adnewyddu Strategaeth Dysgu Digidol Ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer 2025-2028 | Datblygu strategaeth ddysgu ddigidol wedi'i diweddaru, gan adeiladu ar Strategaeth Dysgu Digidol Ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr 2022-2025, wedi'i chyd-lunio gan bartneriaid cyflawni allweddol a'i rhoi ar waith. | Mae gan bob ysgol ym Mhen-y-bont ar Ogwr fframwaith o amcanion ac argymhellion cyffredin i weithio tuag atynt |
| 1.2 | Cynllun Mudo Hwb Ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr | Dilyn Cynllun Mudo Hwb Ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr 2024-2025. Yn unol â'r cynllun, dylai ysgolion ddefnyddio e-bost Hwb, storfa ddata Hwb, a chofrestru dyfeisiau gyda Hwb Intune. | Mae pob Ysgol ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn gweithio tuag at fabwysiadu Hwb yn llawn yn unol â'r amserlenni cwblhau y cytunwyd arnynt yn unigol â'r ysgolion. |
| 1.3 | Adnewyddu'r fframwaith dyfeisiau defnyddiwr terfynol a | Datblygu fframwaith wedi'i ddiweddaru ar gyfer dyfeisiau defnyddwyr | Mae gan bob ysgol ym Mhen-y-bont ar Ogwr ddyfeisiau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | argymhellir ar gyfer ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr. | terfynol a argymhellir, sy'n gyson â Safonau Digidol Addysg Llywodraeth Cymru a disgwyliadau defnyddwyr. | defnyddwyr terfynol a argymhellir ar gyfer dysgu ac addysgu, fel yr amlinellir yn Strategaeth Dysgu Digidol Ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr 2025-2028 |
| 1.4 | Adolygiad parhaus o hidlo ym Mhen-y-bont ar Ogwr gyfan | Er mwyn sicrhau bod gan bob gyfleuster hidlo'r we sy'n addas i'r diben | Mae ysgolion uwchradd yn defnyddio BT PSBA WebSafe ar gyfer hidlo. Mae pob ysgol arall yn defnyddio hidlo gwe corfforaethol CBS Pen-y-bont ar Ogwr. |
| 1.5 | Adolygiad parhaus o alluoedd rhyngrwyd ar gyfer holl ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr | Er mwyn sicrhau bod gan bob ysgol ddigon o led band, gan eu galluogi i ddefnyddio technoleg ddigidol ar gyfer dysgu, addysgu a gweinyddu. | Mae gan ysgolion uwchradd gysylltiadau 1gbit/eiliad. Ar hyn o bryd mae gan bob ysgol arall uchafswm trwybwn o 100mbit/eiliad sy'n creu effaith trombôn drwy wasanaeth Rhyngrwyd PSBA corfforaethol o 3gbit/eiliad i gefnogi gofynion pob ysgol, fel rhan o waith cynllunio capasiti. |
| 1.6 | Rheoli pob dyfais yn ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr yn enwedig yn unol â diwedd oes Windows 10. | Er mwyn sicrhau bod gan bob dyfais gydnaws o fewn yr ysgolion y feddalwedd ddiweddaraf, gan gynnwys Windows 11 a Microsoft 365 | Trwydded Microsoft wedi'i chyflenwi gan Lywodraeth Cymru, gan fanteisio'n llawn ar Hwb a Microsoft 365. Os na ellir diweddaru dyfeisiau i Windows 11, argymhellir defnyddio Chrome OS lle bo modd. |
| 1.7 | Adnewyddu stoc dyfeisiau defnyddwyr terfynol yn yr ystafelloedd dosbarth mewn | Gwella stoc dyfeisiau defnyddwyr terfynol yn yr ystafell ddosbarth ar draws holl ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr gan ddefnyddio | Diwewddaru'r stoc o ddyfeisiau terfynol yn yr ystafell ddosbarth yn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ysgolion lle bo'n briodol | cyfraniadau cynaliadwyedd ysgolion o gyllid Technoleg Addysg Hwb ar gyfer 2023 a 2024 | ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr |
| 1.8 | Sefydlu grŵp ymarferwyr o ddefnyddwyr SIMS ac edrych ar yr holl opsiynau sydd ar gael ar gyfer Systemau Gwybodaeth Reoli (MIS). | Er mwyn cael digon o wybodaeth i alluogi tendr neu ddyfarniad uniongyrchol ar gyfer MIS gan fod contract SIMS presennol ParentPay Group Services Limited (PPGSL) yn dod i ben ar 31 Mawrth 2027 | Y System Gwybodaeth Reoli orau ar gyfer holl ysgolion CBS Pen-y-bont ar Ogwr |
| 1.9 | Datblygu a sefydlu fframwaith asesu risg a pholisi ar gyfer offer a chymwysiadau deallusrwydd artiffisial (AI). | Er mwyn sicrhau bod ysgolion yn deall manteision a risgiau offer a chymwysiadau AI wrth ddysgu, addysgu a gweinyddu. | Mae'r ysgolion yn fwy parod i ddefnyddio offer a chymwysiadau AI yn ddiogel ac yn foesegol o fewn tasgau dysgu ac addysgu a gweinyddu. |

**Blwyddyn 2: Blwyddyn ysgol 2026-2027**

| Eitem | Allbwn | Amcan | Canlyniad |
|---|---|---|---|
| 2.1 | Cynllun Mudo Hwb Ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr | Er mwyn dilyn Cynllun Mudo Hwb Ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr sydd wedi'i ddatblygu ar gyfer 2024-2025. Yn unol â'r cynllun, dylai ysgolion ddefnyddio e-bost Hwb, Cyfleuster Storio Data Hwb, a chofrestru dyfeisiau gyda Hwb Intune. | Mae pob Ysgol ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn gweithio tuag at fabwysiadu Hwb yn llawn yn unol â'r amserlenni cwblhau y cytunwyd arnynt ag ysgolion unigol |
| 2.2 | Rheoli pob dyfais yn ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr yn enwedig yn unol â diwedd oes Windows 10 ym mis Hydref 2026. | Er mwyn sicrhau bod gan bob dyfais gydnaws o fewn yr ysgolion y feddalwedd ddiweddaraf, gan gynnwys Windows 11 a Microsoft 365 | Trwydded Microsoft wedi'i chyflenwi gan Lywodraeth Cymru, gan fanteisio'n llawn ar Hwb a Microsoft 365. Os na ellir diweddaru dyfeisiau i Windows 11, argymhellir defnyddio Chrome OS lle bo modd, |
| 2.3 | Ymchwilio ar y cyd ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru i | Yr MIS sy'n cynnig y gwerth gorau ac sydd yn fwyaf priodol ar gyfer | Contract cyfreithiol ar gyfer MIS i'r holl ysgolion ym Mhen-y- |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | opsiynau am ymarfer caffael ar gyfer MIS i'r ysgolion, a thendro ac/neu ddyfarnu'n uniongyrchol er mwyn cael MIS ar gyfer ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr. | ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr | bont ar Ogwr ar gael o 1 Ebrill 2027. |
| 2.4 | Adolygu'r model cynaliadwyedd presennol ar gyfer seilwaith, dyfeisiau a thechnoleg glyweledol | Er mwyn sicrhau bod cynllun cynaliadwyedd ar waith yn unol ag amodau ariannu Hwb Llywodraeth Cymru – yn dilyn yr ymrwymiad gwreiddiol o 7 mlynedd. | Bod gan ysgolion gynllun cadarn a chynaliadwy ar gyfer eu seilwaith, eu dyfeisiau a'u technoleg glyweledol. |
| 2.5 | Parhau i gynyddu cynrychiolaeth ac ymgysylltiad ysgolion â'r rhwydwaith Grŵp Arweinwyr Digidol. | Er mwyn sicrhau bod ysgolion yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf, y wybodaeth a'r cyfleoedd dysgu proffesiynol sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm digidol a thechnoleg ddigidol. | Bod yr ysgolion yn fwy parod i gefnogi dysgu ac addysgu drwy dechnoleg ac i wella sgiliau a chymhwysedd digidol yr holl ddefnyddwyr technoleg. |

**Blwyddyn 3: Blwyddyn ysgol 2027-2028**

| Eitem | Allbwn | Amcan | Canlyniad |
|---|---|---|---|
| 3.1 | Adolygiad o ddysgu digidol yn ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr | Cynnal adolygiad o ddysgu digidol ar draws holl ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr | Dealltwriaeth glir o'r modd y mae buddsoddiad mewn dysgu digidol, o safbwynt ariannol ac addysgegol, yn gwella deilliannau o ran dysgu ac addysgu. |
| 3.2 | Adolygiad o gynnydd a statws holl Ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr mewn perthynas â Chynllun Mudo Hwb Ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr | Cynnal adolygiad o'r ysgolion hynny sy'n dal i symud i Hwb ac adolygiad o'r ysgolion hynny sydd â statws mabwysiadu llawn. Diweddaru dyddiadau cwblhau llinell amser ar gyfer holl ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr. | Dealltwriaeth o'r llwyddiannau a'r heriau drwy fabwysiadu Hwb yn llawn ar gyfer holl ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr. |

**Atodiad A**

## Cylch gorchwyl Grŵp Strategaeth TGCh Ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr

### Cylch Gorchwyl

**1. Dirprwyo**

1.1 Sefydlwyd Grŵp Strategaeth Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) yr Ysgolion ('y Grŵp') gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Y Gyfarwyddiaeth Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc) i sicrhau dull cyson ac o ansawdd uchel o ymdrin â TGCh yn ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr.

**2. Mandad**

2.1 Pwrpas y Grŵp yw:

- amlygu a hyrwyddo'r defnydd gorau o TGCh mewn ysgolion;
- argymell a chadw rhestr safonol a argymhellir o gymwysiadau meddalwedd ar gyfer y cwricwlwm;
- cynghori ysgolion ar safonau digidol fel cysylltiadau a hidlo'r Rhyngrwyd;
- cynghori ysgolion ar ddiogelwch TGCh; a
- chyfleu datblygiadau newydd â rheolwyr system gwybodaeth reoli (MIS) yr ysgolion.

**3. Aelodaeth**

3.1 Mae aelodaeth y Grŵp yn cynnwys:

- Pennaeth (Ysgol Gynradd y Pîl) – Cadeirydd;
- Cyfarwyddwr Corfforaethol (Y Gyfarwyddiaeth Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc);
- Cadeirydd (Fforwm Cyllideb Ysgolion);
- Swyddog Rheoli Ysgolion Lleol (Swyddog Cyllid);
- Cyfrifydd – Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr (Swyddog Cyllid);
- Rheolwr Grŵp (TGCh);
- Swyddog Arwain Digidol (Grŵp Ysgolion);
- Pennaeth (Ysgol Gynradd Bryncethin);
- Pennaeth (YGG Bro Ogwr);
- Pennaeth (Ysgol Gynradd Blaengarw);
- Pennaeth (Ysgol Gynradd West Park);
- Pennaeth (Ysgol Gynradd Pencoed);
- Pennaeth (Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Penyfai);
- Pennaeth (Ysgol Arbennig Heronsbridge);
- Pennaeth (Ysgol Gyfun Pencoed);
- Rheolwr Rhwydwaith (Ysgol Gyfun Porthcawl);
- Rheolwr Rhwydwaith (Ysgol Maesteg);
- Arweinydd y Fframwaith Cymhwysedd Digidol Cynradd (Ysgol Iau Llangewydd);

- Arweinydd y Fframwaith Cymhwysedd Digidol Uwchradd (Ysgol Uwchradd Gatholig yr Archesgob McGrath);
- Arweinydd Digidol (Consortiwm Canolbarth y De);
- Rheolwr Cymorth TG a Swyddfa Ddigidol (Ysgrifennydd); a
- Swyddog Arbenigol (System Gwybodaeth Reoli Ysgolion)

3.2 Dylid sicrhau cynrychiolaeth o ystod o ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig, gan ystyried darpariaeth cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg a ffydd.

3.3 Bydd y grŵp yn creu cworwm os yw 50% o'i aelodaeth yn bresennol.

3.4 Disgwylir i aelodau sicrhau bod cynrychiolydd arall ar gael os na allant fod yn bresennol mewn cyfarfod.

**4. Cyfarfodydd**

4.1 Mae'r Grŵp yn cyfarfod bob hanner tymor yn ystod y flwyddyn ysgol. Gellir galw cyfarfodydd ychwanegol pan fo angen.

4.2 Cynhelir cyfarfodydd dros Microsoft Teams.

4.3 Mae gan y Grŵp rym i greu is-grwpiau fel bo'r angen. Bydd yr is-grwpiau hyn yn adrodd adolygiadau ac argymhellion yn ôl i'r Grŵp.

**5. Adrodd**

5.1 Cofnodion cyfarfodydd i'w dosbarthu i benaethiaid ysgolion cynradd ac uwchradd drwy Gymdeithas Penaethiaid Arbennig ac Uwchradd Pen-y-bont ar Ogwr (BASSH) a grwpiau Ffederasiwn Cynradd priodol. Bydd unrhyw bwyntiau o ddiddordeb yn cael eu cyfleu wrth benaethiaid drwy e-bost wythnosol i'r ysgolion.

**6. Cylch Gorchwyl**

6.1 Bydd cylch gorchwyl y Grŵp yn cael ei adolygu ym mis Mai 2027.

**Atodiad B**

<table>
<tr><th colspan="2">Offer a Gwasanaethau Hwb<br>(ar gyfer dysgu ac addysgu)</th></tr>
<tr><td>Offer a Gwasanaethau Digidol</td><td>Microsoft Office 365:<br>• Calendar<br>• Class Notebook<br>• Connections<br>• Copilot<br>• Excel<br>• Forms<br>• Kaizala<br>• Learning<br>• Lists<br>• Loop<br>• OneDrive<br>• OneNote<br>• Outlook<br>• People<br>• Planner<br>• Power Apps<br>• Power Automate<br>• Power Pages<br>• PowerPoint<br>• Project<br>• Reading Coach<br>• Reflect<br>• Staff Notebook<br>• Stream<br>• Sway<br>• Teams<br>• To Do<br>• Visio<br>• Whiteboard<br>• Word<br><br>Offer ychwanegol drwy fynediad i Microsoft365 ar Hwb:<br><br>• Adobe Identity Management<br>• Edutrack<br>• Microsoft Flow for Excel (Preview)<br>• Microsoft Flow Launch Panel<br>• Minecraft: Education Edition<br>• Read and Write by Texthelp<br><br>Google Workspace for Education:</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | • Classroom<br>• Calendar<br>• Docs<br>• Sheets<br>• Slides<br>• Drive<br>• Shared Drive<br>• Meet<br>• Sites<br>• Forms<br>• Keep<br>• Vault<br><br>**Adobe Creative Cloud Express:**<br><br>Mae Adobe Creative Cloud drwy Hwb yn cynnig platfform o gynhyrchion sy'n rhoi set gynhwysfawr o offer safon symudol a digidol o safon y diwydiant i ddysgwyr.<br><br>Bydd pob ysgol yn cael trwydded 'blasu'. Gall pob ysgol a gynhelir osod archebion am drwyddedau ychwanegol i gael mynediad llawn i:<br><br>• Adobe Photoshop<br>• Adobe Animate<br>• Adobe Acrobat Pro<br>• Adobe InDesign<br>• Adobe XD<br>• Adobe Premiere Rush<br>• Adobe Spark<br><br>**Just2easy (J2E):**<br><br>Cyfres o offer creadigrwydd, apiau a gemau ar gyfer pynciau fel Mathemateg, Saesneg a Chyfrifiadura<br><br>• J2launch<br>• J2e5<br>• JIT5<br>• J2vote<br>• J2data<br>• J2code<br>• J2bloggy<br>• J2webby<br>• J2pdf<br>• J2review<br><br>**Minecraft Education**:<br><br>• Fersiwn Addysg: Platfform dysgu sy'n seiliedig ar gemau. |

| | |
|---|---|
| | **Britannica Education:**<br><br>• Mynediad at gronfa helaeth o gynnwys addysgol. Erthyglau, bywgraffiadau, fideos a delweddau gan dîm arbenigol Encyclopaedia Britannica, wedi'u cyflwyno mewn fformat ar-lein hygyrch i gefnogi anghenion athrawon a dysgwyr.<br>• Britannica ImageQuest: llyfrgell weledol ar-lein sy'n cynnal miliynau o ddelweddau di-freindal gan 70 o ddarparwyr mwyaf uchel eu parch y byd.<br><br>**360 Safe Cymru:**<br><br>• Offeryn rhyngweithiol i hunanadolygu diogelwch ar-lein a ddatblygwyd i ysgolion a lleoliadau addysg yng Nghymru gan Ymddiriedolaeth y South West Grid for Learning.<br>• Mae'r offeryn yn caniatáu i ysgolion adolygu eu darpariaeth diogelwch ar-lein, a'i meincnodi yn erbyn arfer da ac ysgolion eraill. |

**Atodiad C**

**Rhestr o ddyfeisiau defnyddwyr terfynol, offer clyweledol (AV) ac offer perifferol a argymhellir**

**Y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2**

| | |
|---|---|
| **Cam Cynnydd 1:** fel arfer ar gyfer dysgwyr rhwng 3 a 5 oed | • 2 x ddyfais bwrpasol yn yr ystafell ddosbarth – naill ai cyfrifiadur bwrwdd gwaith/gliniadur Windows neu ddyfeisiau Chrome<br>• Dyfeisiau llechen (iPads) ar gymhareb dyfais i ddisgybl o 1:4 i gefnogi gweithgareddau dysgu grŵp y disgyblion hyn o fewn gwers<br>• Rhwydwaith sy'n gallu cefnogi cymhareb dyfais i ddisgybl o 1:1<br>• 1 x gliniadur athro<br>• 1 x sgrin glyweledol ddigidol (sgrin gyffwrdd neu heb sgrin gyffwrdd), wedi'i gosod ar y wal neu ystyried ei gosod ar droli i gynyddu hyblygrwydd/lleihau cyfyngiadau<br>• 1 x porth ychwanegol ar gyfer teleffoni (os oes angen).<br>• Cwmpas di-wifr<br>• Yn cydymffurfio â'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol |
| **Cam Cynnydd 2:** fel arfer ar gyfer dysgwyr rhwng 5 ac 8 oed | • 2 x ddyfais bwrpasol yn yr ystafell ddosbarth – naill ai cyfrifiadur bwrwdd gwaith/gliniadur Windows neu ddyfeisiau Chrome<br>• Dyfeisiau llechen (iPads) ar gymhareb dyfais i ddisgybl o 1:4 i gefnogi gweithgareddau dysgu grŵp y disgyblion hyn o fewn gwers<br>• Rhwydwaith sy'n gallu cefnogi cymhareb dyfais i ddisgybl o 1:1<br>• 1 x gliniadur athro<br>• 1 x sgrin glyweledol ddigidol (sgrin gyffwrdd neu heb sgrin gyffwrdd), wedi'i gosod ar y wal neu ystyried ei gosod ar droli i gynyddu hyblygrwydd/lleihau cyfyngiadau<br>• 1 x porth ychwanegol ar gyfer teleffoni (os oes angen).<br>• Cwmpas di-wifr<br>• Yn cydymffurfio â'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol |
| **Cam Cynnydd 3:** fel arfer ar gyfer dysgwyr rhwng 8 ac 11 oed | • 2 x ddyfais bwrpasol yn yr ystafell ddosbarth – naill ai cyfrifiadur bwrwdd gwaith/gliniadur Windows neu ddyfeisiau Chrome<br>• Dyfeisiau llechen (iPads) ar gymhareb dyfais i ddisgybl o 1:4 i gefnogi gweithgareddau dysgu grŵp y disgyblion hyn o fewn gwers |

| | |
|---|---|
| | • Rhwydwaith sy'n gallu cefnogi cymhareb dyfais i ddisgybl o 1:1<br>• 1 x gliniadur athro<br>• 1 x sgrin glyweledol ddigidol (sgrin gyffwrdd neu heb sgrin gyffwrdd), wedi'i gosod ar y wal neu ystyried ei gosod ar droli i gynyddu hyblygrwydd/lleihau cyfyngiadau<br>• 1 x porth ychwanegol ar gyfer teleffoni (os oes angen).<br>• Cwmpas di-wifr<br>• Yn cydymffurfio â'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol |
| **Ystafell TG**<br><br>(mae'n llai tebygol y bydd angen hyn wrth gynyddu hyblygrwyd o ran mynediad i TG o amgylch yr ysgol gyfan a'r holl ddosbarthiadau) | • Banc o gyfrifiaduron bwrdd gwaith/gliniaduron ar gael – ystyriwch orsafoedd docio i gynyddu'r hyblygrwydd i symud dyfeisiau fel gliniaduron/Chrome y gellid eu defnyddio wedyn o'r banc o ddyfeisiau sydd eisoes ar gael, gan leihau costau a chynyddu symudedd.<br>• 1 x gliniadur athro – rheolydd ar gyfer taflunydd, bwrdd gwyn neu sgrin gyffwrdd/heb gyffwrdd<br>• 1 x sgrin glyweledol ddigidol (sgrin gyffwrdd neu heb sgrin gyffwrdd), wedi'i gosod ar y wal neu ystyriwch osod sgrin ar droli (sgrin gyffwrdd/heb sgrin gyffwrdd fel bo'n briodol)<br>• 1 x porth ychwanegol ar gyfer teleffoni (os oes angen)<br>• Cwmpas di-wifr<br>• Yn cydymffurfio â'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol |

**Cyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4**

| | |
|---|---|
| **Ystafell ddosbarth safonol**<br><br>**Cam Cynnydd 4:** fel arfer ar gyfer dysgwyr rhwng 11 ac 14 oed<br><br>**Cam Cynnydd 5:** fel arfer ar gyfer dysgwyr rhwng 14 ac 16 oed | • Yn gweithio tuag at gymhareb dyfais i ddisgybl o 1:2 ond gyda rhwydwaith sy'n gallu cynnal cymhareb dyfais i ddisgybl o 1:1<br>• Ystyriwch ddefnyddio troliau er mwyn gwneud defnydd hyblyg o adnoddau drwy'r ysgol, ac agweddau ymarferol fel y gallu i wefru amryw o ddyfeisiau.<br>• Rhwydwaith sy'n galluogi caniatáu 'Dod â'ch Dyfais Eich Hun'<br>• 1 x gliniadur athro<br>• 1 x sgrin ddigidol (naill ai'n rhyngweithiol neu ddim, fel bo'n briodol) – ystyried gosod ar droli i gynyddu hyblygrwydd/lleihau cyfyngiadau a rhwyddhau'r defnydd ohoni<br>• 1 x porth ychwanegol ar gyfer teleffoni (os oes angen)<br>• Cwmpas di-wifr<br>• Yn cydymffurfio â'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol |
| **Ystafell TG** | • Banc o gyfrifiaduron bwrdd gwaith/gliniaduron ar gael – ystyriwch orsafoedd docio i gynyddu'r hyblygrwydd i |

| | |
|---|---|
| (ar gyfer meysydd penodol yn narpariaeth y cwricwlwm) | symud dyfeisiau fel gliniaduron/Chrome y gall dosbarthiadau eraill wedyn eu defnyddio<br>• 1 x gliniadur athro<br>• 1 x sgrin ddigidol (naill ai'n rhyngweithiol neu ddim yn ôl yr angen)<br>• 1 x porth ychwanegol ar gyfer teleffoni (os oes angen)<br>• Cwmpas di-wifr<br>• Yn cydymffurfio â'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol |